

2022 Rhif (Cy. )

2022 No. (W.)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r  
A489 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd,  
Powys) (Gwahardd Cerbydau,  
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)  
2022

The A483 & A489 Trunk Roads  
(Newtown Bypass, Powys)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles, Cyclists & Pedestrians)  
Order 2022

*Gwnaed* 12 Mai 2022

*Yn dod i rym* 16 Mai 2022

*Made* 12 May 2022

*Coming into force* 16 May 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o gefnffyrdd yr A483 a'r A489, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A483 and A489 trunk roads, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk roads should be prohibited because of works proposed on or near the roads.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483 a'r A489 (Ffordd Osgoi'r Drenewydd, Powys) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Mai 2022.

**Title and commencement**

1. The title of this Order is the A483 & A489 Trunk Roads (Newtown Bypass, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2022 and this Order comes into force on 16 May 2022.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

**Interpretation**

2. In this Order—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “y cefnffyrdd” (“*the trunk roads*”) yw’r darnau o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion a chefnffordd yr A489 y Drenewydd i Aberystwyth o’r enw Ffordd Osgoi’r Drenewydd, Powys a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn;

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn neu i gael mynediad i eiddo priodol;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 09:30 o’r gloch ar 16 Mai 2022 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol.

### Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### Cymhwys

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

12 Mai 2022

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services, in connection with the works giving rise to this Order or to access appropriate properties;

“the trunk roads” (“*y cefnffyrdd*”) means the lengths of the A483 Swansea to Manchester trunk road and the A489 Newtown to Aberystwyth trunk road known as Newtown Bypass, Powys specified in the Schedule to this Order;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 09:30 hours on 16 May 2022 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

### Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Order.

### Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

12 May 2022

Nicci Hunter

Business Team Leader  
Welsh Government

## **YR ATODLEN**

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o Gylchfan Ffordd Dolfor hyd at Gylchfan Kerry Road.

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o Gylchfan Kerry Road hyd at Gylchfan Pool Road.

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o Gylchfan Llanidloes hyd at Gylchfan Ffordd Dolfor.

## **SCHEDULE**

The length of the A483 trunk road that extends from Dolfor Road Roundabout to Kerry Road Roundabout.

The length of the A483 trunk road that extends from Kerry Road Roundabout to Pool Road Roundabout.

The length of the A489 trunk road that extends from Llanidloes Roundabout to Dolfor Road Roundabout.